# Arian Cyfatebol

Cyllideb cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

## Trosolwg

1. Beth yw arian cyfatebol?
2. Mathau o Arian Cyfatebol
3. Pa arian y gellir ei ddefnyddio ar gyfer arian cyfatebol?
4. Pethau i'w cadw mewn cof

## Beth yw arian cyfatebol?

Ni chaniateir i brosiectau dderbyn eu holl arian o Gronfeydd Strwythurol. Fel arfer bydd Ewrop yn cyfrannu canran benodedig tuag at gyfanswm cost y prosiect.

Mae'n rhaid i'r gweddill ddod oddi wrth y buddiolwr, a gelwir hyn yn arian cyfatebol. Cyfeirir weithiau at arian cyfatebol fel 'cydgyllido' neu 'cydariannu'.



Llun: Blychau cynilion gydag arian papur a darnau arian

Mae arian cyfatebol yn cyfeirio at y swm o arian **nad yw'n dod o Ewrop** sydd ei angen i gwrdd â chost lawn y prosiect. Gelwir y ganran a gyfrennir gan Ewrop yn gyfradd ymyrraeth a bydd yn amrywio yn ôl pa flaenoriaeth ac amcan penodol y mae'r prosiect yn perthyn iddynt.

Daw cyfanswm costau'r prosiect o ddwy ffynhonnell, yr elfen Ewropeaidd a'r arian cyfatebol. O safbwynt rheoli prosiect, fodd bynnag, gall fod yn ddefnyddiol i feddwl am gyfanswm costau'ch prosiect yn unig a pheidio â gwahanu'r ddwy elfen.

**Er enghraifft:**

Wrth gyllidebu ac amcangyfrif cost y prosiect, peidiwch â cheisio rhannu'r arian cyfatebol ac arian o ffynonellau eraill i ddau gategori ar wahân. Amcangyfrifwch gyfanswm cyllideb y prosiect, ac yna gallwch weld faint o arian cyfatebol fydd ei angen. Bydd y ffurflenni cais, y ffurflenni grant neu'r tendrau yn gofyn i chi am gyfanswm cost y prosiect ac nid am yr elfen sydd ei hangen o Ewrop.

Yn yr un modd, wrth weithredu'r prosiect byddwch yn hawlio am gyfanswm cost y prosiect ac yn cael eich archwilio am hynny, dim yr elfen Ewropeaidd yn unig.

Cytunir ar arian cyfatebol fel rhan o broses ddyfarnu prosiectau ac mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch cyllidwr os oes unrhyw newidiadau yn eich arian cyfatebol wrth gynnal eich prosiect

**Dolen Allanol**

Gellir cael canllawiau mwy manwl ar gyllid cyfatebol ar wefan Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru - Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020

## Esiampl wedi'i chyfrifo

Mae Sefydliad Baggins yn cynnig prosiect hyfforddi dwy flynedd i bobl ifanc dan anfantais rhwng 16 a 24 oed. Mae costau'r prosiect yn cynnwys swyddog hyfforddi amser llawn, gweinyddwr, rhai costau buddiolwyr a llogi lleoliad, arlwyaeth a deunydd hyfforddi.

## Cost y prosiect

| | |
|---|---|
| 1 swyddog hyfforddi amser llawn am £25,000 y flwyddyn | £50,000 |
| 1 gweinyddwr rhan-amser | £20,000 |

| | |
|---|---|
| Teithio a chynhaliaeth buddiolwyr | £5,000 |

| | |
|---|---|
| Deunydd hyfforddi | £5,000 |
| Llogi ystafelloedd, arlwyo ac ati | £20,000 |
| **Cyfanswm costau'r prosiect** | **£100,000** |

| | |
|---|---|
| Cyfradd ymyrraeth | 70% |
| Bydd Ewrop yn cyfrannu | £70,000 |
| **Arian cyfatebol fydd ei angen** | **£30,000** |

Wrth gyllidebu, cadw cofnodion neu wneud cais ariannol am dâl, mae'n rhaid rhoi tystiolaeth am y £100,000 llawn, nid y £70,000 o arian Ewropeaidd yn unig.

# Mathau o Arian Cyfatebol

Mae'n rhaid derbyn cadarnhad o arian cyfatebol cyn y gellir cymeradwyo prosiect. Os bydd ffynhonnell allanol arall o gyllid yn cael ei defnyddio fel arian cyfatebol, er enghraifft Cyllid y Loteri, bydd angen darparu prawf bod y cyllidwr yn cytuno i'w arian gael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol. Mae'n bwysig cofio bod mudiadau gwirfoddol yn gallu rhoi arian cyfatebol iddynt eu hunain. Gallant felly ddefnyddio rhan o'u harian craidd neu amser staff fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau ar yr amod bod y cyllid yn gymwys.

Mae'n rhaid i'r arian cyfatebol a ddefnyddir ar brosiect Ewropeaidd fod yn "lân". Golyga hyn na chaniateir iddo ddod o ffynhonnell Ewropeaidd arall a chyfrifoldeb noddwr y prosiect yw gwirio hyn. Gall hyn fod yn broblem wrth ddefnyddio arian gan fudiadau eraill, megis Adrannau o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach / uwch sydd hefyd yn defnyddio cronfeydd Ewropeaidd yn helaeth. Ni ellir defnyddio'r un arian cyfatebol ar gyfer dau brosiect gwahanol. Felly, gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, petai Sefydliad Baggins yn dymuno rhedeg prosiect arall, ni fyddent yn gallu defnyddio dim o'r £30,000 a roddwyd o'r neilltu ar gyfer y prosiect gwreiddiol.

# Pa arian y gellir ei ddefnyddio ar gyfer arian cyfatebol?

## Arian Cyfatebol Gwirioneddol

Arian cyfatebol mewn arian yw arian cyfatebol gwirioneddol. Gall fod yn gyfandaliad a roddwyd i brosiect ond gall arian cyfatebol gwirioneddol hefyd gyfeirio at arian a roddwyd drwy dalu cyflogau staff prosiect neu brynu offer ac ati. Dyma pam ei fod yn hanfodol eich bod yn cofnodi cyfanswm cost y prosiect.

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod mae 70% o gyflog y swyddog hyfforddi yn cael ei dalu gan Ewrop i bob pwrpas gyda 30% yn dod oddi wrth y cyllidwr arian cyfatebol fel arian cyfatebol gwirioneddol. Er mwyn hawlio'r 70% o gyfraniad, mae'n rhaid i'r person dreulio a chofnodi 100% o'i amser ar y prosiect.

## Arian cyfatebol ar ffurfiau ymarferol

Arian cyfatebol ar ffurfiau ymarferol yw pan fydd mudiad neu unigolyn yn darparu gwasanaeth neu gynnyrch yn ddi-dâl ac nad yw felly'n ymddangos yng nghyfrifon y prosiect. Bydd y costau hyn felly'n cael eu hysgwyddo gan y rhoddwr.

Mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys:

- **Gellir defnyddio amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol**. Gellir cysylltu gwerth i'r amser y mae gwirfoddolwyr yn ei dreulio yn helpu i gyflwyno prosiect a gyllidir gan yr UE ac mae'n rhaid cyfrifo hyn gan ddefnyddio'r cyfraddau tybiannol a benodir ar gyfer gwahanol rolau gwirfoddoli gan WEFO. Gellir cael taflen wybodaeth ar wahân ar ddefnyddio amser gwirfoddolwyr gan 3-SET.
- **Darparu gwaith, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau ee cyfarpar sydd wedi'i roi neu ddefnydd am ddim o leoliadau.**
- **Rhoddion tir a/neu adeiladau nad yw'r buddiolwyr wedi talu arian amdanynt.**

# Pethau i'w cadw mewn cof

Mae'n rhaid i bob arian cyfatebol, boed yn ymarferol neu'n wirioneddol fod:

- Yn feintiol
- Yn gymwys
- Wedi ei gefnogi â chofnodion trylwyr
- Ni ellir defnyddio trethi na rhenti tybiannol; rhaid iddynt fod yn gostau gwirioneddol

Adolygwyd: Mehefin 2019

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds